# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015** |
| Amser: | **09.03 - 11.04** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2730**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf**<br>**Mary Williams, Cwm Taf Community Health Council**<br>**Dr Paul Worthington, Cwm Taf Community Health Council**<br>**Ruth Treharne, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Mark Jeffs (Cynghorwr Arbenigol)**<br>**Dave Thomas (Cynghorwr Arbenigol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (20 Ebrill 2015)

## 3 Amseroedd Aros a Thargedau Perfformiad Allweddol y GIG

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Peter Meredith-Smith, Cyfarwyddwr Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, Mary Williams, Cadeirydd, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf a Dr Paul Worthington, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ar yr ymchwiliad i Amseroedd Aros a Thargedau Perfformiad Allweddol y GIG.
2.1 Cytunodd Peter Meredith-Smith i ddarparu manylion am nifer y cwynion yn ymwneud â chyfathrebu ac achosion ar draws Cymru pan fo cleifion wedi dioddef o ganlyniad i aildrefnu eu hapwyntiad a chrynodeb, gan CIC, o nifer y materion a godwyd trwy wybodaeth, pryder a chwyn

## 4 Amseroedd Aros a Thargedau Perfformiad Allweddol y GIG

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Allison Williams, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Ruth Treharne, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar yr ymchwiliad i Amseroedd Aros a Thargedau Perfformiad Allweddol y GIG.
4.2 Cytunodd Allison Williams i ddarparu:

- Adroddiad diweddaraf y Bwrdd Iechyd sydd yn dangos y tafl-lwybrau o un mis i'r llall ynghyd â chanran y cleifion sydd wedi methu targedau
- Copi o gynllun tair blynedd cyfredol y Bwrdd Iechyd
- Templedi o bob llythyr apwyntiad a roddwyd i gleifion
- Nodyn ar wasanaethau Offthalmoleg o fewn y Bwrdd Iechyd
- Nodyn ar sut y mae cleifion, sydd yn aros am driniaeth ar hyn o bryd, sydd yn symud i ardal y Bwrdd Iechyd o'r tu allan i Gymru, yn cael eu hychwanegu at restrau aros fel nad ydynt o dan anfantais.
- Nodyn ar amserlenni'r gwaith archwilio sy'n cael ei wneud ar apwyntiadau dilynol i gleifion hirdymor (cleifion nad oes ganddynt apwyntiadau dilynol wedi'u trefnu)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Amseroedd Aros a Thargedau Perfformiad Allweddol y GIG: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.